

# Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

## Aelodau Annibynnol (Lleyg)

## Gwybodaeth i ymgeiswyr

# PENODI AELOD ANNIBYNNOL AR BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO CYNGOR SIR DDINBYCH

Rydym yn edrych i benodi Aelod Annibynnol i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor a fydd yn gyfrifol am ddarparu ffocws lefel uchel annibynnol ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheolaeth o fewn y Cyngor. Mae y rôl o ran sicrhau bod digon o sicrwydd ynghylch llywodraethu, risg a rheolaeth yn rhoi mwy o hyder i'r Cyngor fod y trefniadau hynny'n effeithiol.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos annibyniaeth, uniondeb a diduedrwydd wrth gyflawni gwaith y pwyllgor a meddu ar y rhinweddau a'r sgiliau a ganlyn:-

- Sgiliau dadansoddol gan gynnwys y gallu i ddeall a phwyso a mesur tystiolaeth
- Y gallu a'r hyder i herio a dwyn Swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr Archwilio Mewnol ac Allanol i gyfrif;
- Y gallu i asesu materion sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth, a nodi a gwerthuso atebion;
- Ymwybyddiaeth strategol a'r gallu i wneud penderfyniadau clir a rhesymegol;
- Gweithio i safon uchel o ymddygiad, gan ddangos gonestrwydd a chywirdeb a disgresiwn;
- Parch tuag at eraill a dealltwriaeth o faterion amrywiol.
- Empathi â'r Iaith Gymraeg a Diwylliant
- Profiad o fynychu a chyfrannu at gyfarfodydd

Nid oes rhaid cael gwybodaeth fanwl o lywodraeth leol er y byddai o fantais os byddai angen i ymgeiswyr posibl fod â dealltwriaeth dda o'r amgylchedd y mae Cyngor Sir Dinbych yn gweithredu ynddo.

**Ni all berson fod yn aelod annibynnol os yw:**

- Yn aelod neu'n swyddog o Gyngor Sir Ddinbych neu unrhyw awdurdod lleol arall,
- Wedi bod ar unrhyw adeg yn y cyfnod o ddeuddeg mis yn dod i ben gyda dyddiad y penodiad, yn aelod neu'n swyddog o unrhyw awdurdod lleol, a
- Yn briod neu'n bartner sifil i aelod neu swyddog o unrhyw awdurdod lleol.
- Wedi cael eu hanghymhwyso o dan Adran 80 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu unrhyw ddeddfiad arall

**Taliadau i Aelodau Annibynnol**

Byddwch yn derbyn rhwng £105 a £268 y diwrnod yn dibynnu ar eich rôl ac mae'r Pwyllgor Safonau yn cyfarfod hyd at 6 gwaith y flwyddyn yn Sir Ddinbych.

Bydd pob cais yn cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod a bydd yr angen i gael cydbwysedd o sgiliau, rhinweddau ac arbenigedd ar y Pwyllgor.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5 Medi 2025. Bydd y penodiad yn amodol ar gyfweliad gyda Phanel Cynghori ar 25 Medi 2025. Bydd y Panel Cynghori yn gwneud argymhelliad ar y 11 Tachwedd 2025 i'r Cyngor Llawn a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y penodiad.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl cysylltwch â Gary Williams, Swyddog Monitro ar gary.williams@sirddinbych.gov.uk neu 01824 712562.

Mae ffurflenni cais ar gael gan Amy Foster ar amy.foster@sirddinbych.gov.uk neu dros y ffôn ar 01824 712607

**Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.**

# Am y rôl

Bydd cyfansoddiad a thrafodion y Pwyllgor yn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol.

Mae'r rôl yn cynnwys mynychu a chymryd rhan yng nghyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, a chynorthwyo'r Cyngor i ddefnyddio'i bwerau a chyflawni'i swyddogaethau fel y'u gosodir yng Nghylch Gwaith y Pwyllgor.

Mae'r Corff Llywodraethu ac Archwilio'n cynghori'r Cyngor a'r Cabinet, a Phwyllgorau a Swyddogion y naill a'r llall, ar faterion sy'n gysylltiedig â llywodraethu da, amryfusedd ariannol, rheoli risg, gweithdrefnau cwyno, a rheolaeth fewnol wrth gyflawni gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau bod systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol y Cyngor yn effeithiol, a bod gwasanaethau archwilio mewnol y Cyngor yn gweithredu'n unol â'r gweithdrefnau a gytunwyd.

Gosodir swyddogaethau'r Pwyllgor yn y Cylch Gwaith, ac maent yn cynnwys:

- Adolygu, archwilio a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y Cyngor;

- Adolygu, archwilio a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion am briodoldeb trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Cyngor; a

- Goruchwylio trefniadau archwilio'r awdurdod ac adolygu ei ddatganiadau ariannol.

Yn ogystal, gall y Cyngor bennu swyddogaethau eraill ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y mae'n barnu'n addas. Gall y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio benderfynu sut mae am gyflawni'i swyddogaethau, ond rhaid iddo roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau statudol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Rhaid iddo hefyd ystyried Canllaw Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio: Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (Rhifyn 2022).

Dylid nodi bod gan aelodau lleyg yr hawl i bleidleisio ar argymhellion, ond nid ar bolisi.

Rhagwelir y bydd cyfnod y penodiad yn ddau dymor llawn o'r Cyngor (cyfnod sefydlog) yn y lle cyntaf, gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn fel bo angen. Gall yr ymrwymiad amser sy'n gysylltiedig â'r rôl amrywio, ac mae hyblygrwydd yn hanfodol. Ar gyfartaledd, mi fyddai'n debygol o olygu mynchu 5-7 o gyfarfodydd yn y dydd, yn para rhwng un a thair awr bob blwyddyn, yn ogystal â gwaith darllen paratoadol, a hyfforddiant a datblygiad cysylltiedig.

Bydd y rôl hefyd yn cynnwys cysylltu â'r: Swyddog Monitro, Pennaeth Cyllid ac Archwilio, Pennaeth Archwilio Mewnol, Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio, Swyddogion a Chynghorwyr eraill y Cyngor fel bo angen.

I gael gwybodaeth bellach am waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gweler y ddolen:

https://moderngov.denbighshire.gov.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=130&LLL=1.

# Disgrifiad Rôl

## Aelod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

### Atebolrwydd

- I’r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor

### Diben a Gweithgareddau’r Rôl

**Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor a gwneud penderfyniadau**

- Dangos annibyniaeth, uniondeb a didueddrwydd wrth wneud penderfyniadau yn unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisïau perthnasol.

- Rhoi ystyriaeth i ofynion Cadeirydd y Pwyllgor a chyngor proffesiynol uwch swyddogion yr awdurdod, gan gynnwys y Prif Swyddog Ariannol a’r Pennaeth Archwilio Mewnol (neu swyddog cyfatebol).

- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad yr awdurdod.

- Gweithio yn ôl Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.

- Cyfrannu tuag at ddatblygiad rhaglen gwaith i’r dyfodol y Pwyllgor.

- Hyrwyddo rôl y pwyllgor o fewn yr awdurdod.

- Adrodd i’r Cyngor yn ôl y gofyn.

- Ymateb i unrhyw argymhellion a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddiant a datblygu sy’n ofynnol ar gyfer y rôl.

**Cyfrannu i waith y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl o ran:**

**Adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod**

- Paratoi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod.

- Cadw golwg ar drefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod.

- Cydweithio ag archwilwyr mewnol ac allanol.

- Adolygu’r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr awdurdod a’u cymeradwyo pan gaiff pwerau eu dirprwyo, gan gynnwys paratoi adroddiadau ac argymhellion perthnasol.

**Cyfrannu i berfformiad effeithiol yr awdurdod**

- Adolygu adroddiad drafft hunanasesiad blynyddol yr awdurdod a gwneud argymhellion am newidiadau i'r casgliadau neu'r camau gweithredu y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd.

- Gwneud argymhellion mewn ymateb i adroddiad drafft Asesiad Panel yr awdurdod (a gomisiynir unwaith y tymor **o fis Mai 2022 ymlaen**).

- Adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

- Paratoi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

**Adolygu ac asesu trefniadau Llywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth yr awdurdod**

- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod.

- Paratoi adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod ar addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

- Adolygu ac asesu'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â llywodraethu corfforaethol, a bodloni'ch hun bod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, gan gynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol, yn adlewyrchu'r amgylchedd risg ac unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd i'w wella.

## Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

# Manylion Person

**Mae'r Manylion am yr Unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau'r rôl yn effeithiol. Fe'i defnyddir yn y broses o lunio'r rhestr fer a'r cyfweliadau.**

**Meini Prawf Hanfodol:**

- Ar gael i fynychu a pharatoi'n briodol ar gyfer pob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
- Yn meddu ar ddealltwriaeth dda o amgylchedd gwaith Cyngor Sir Ddinbych (gan gynnwys egwyddorion ac arferion rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth gorfforaethol ac ariannol, gwelliant parhaus ac archwiliadau allanol);
- Yn gallu asesu materion sy'n gysylltiedig â threfniadau rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth, a nodi a gwerthuso atebion;
- Yn gallu cynorthwyo i ddarparu sicrwydd annibynnol i'r Cyngor mewn perthynas â'i amgylchedd rheoli mewnol;
- Yn meddu ar sgiliau dadansoddi, gan gynnwys y gallu i bwyso a mesur tystiolaeth a dogfennau cymhleth, a dod i gasgliadau rhesymegol, annibynnol a diduedd, gan gynnwys cyngor priodol;
- Yn meddu ar ymwybyddiaeth strategol a'r gallu i wneud penderfyniadau clir a rhesymegol;
- Yn gweithio yn ôl safon uchel o ymddygiad, gan ymddwyn yn onest a chywir a chyda disgresiwn;
- Wedi cael profiad o wneud penderfyniadau;
- Yn meddu ar y gallu i fod yn wrthrychol, yn annibynnol ac yn ddiduedd;
- Yn gallu gweithio'n effeithiol ag Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor o fewn amgylchedd Pwyllgor ffurfiol;
- Yn gallu ystyried a gwneud sylwadau ar adroddiadau gan swyddogion y Cyngor, yr archwiliwr allanol ac asiantaethau arolygu eraill, gan nodi unrhyw faterion sylweddol sy'n codi, a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i wella pethau;
- Yn meddu ar y gallu a'r hyder i herio swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr Archwilio Mewnol ac Allanol a'u dal i gyfrif;
- Yn meddu ar lefel uchel o sgiliau rhyngbersonol, gan gynnwys y gallu i weithio fel rhan o dîm, gan gymryd rhan mewn cyfarfodydd, a chadeirio cyfarfodydd os oes angen;
- Yn meddu ar sgiliau cyfathrebu da (ysgrifenedig a llafar), arweinyddiaeth a sgiliau rhyngbersonol ardderchog, y gallu i rymuso a herio mewn ffordd gefnogol;
- Yn meddu ar wybodaeth o, ac ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth;

- Yn deall pwysigrwydd y Gymraeg a Diwylliant Cymru;
- Yn gallu dangos annibyniaeth wleidyddol;
- Yn gyfarwydd â'r byd digidol, gyda sgiliau TG da a'r gallu i gyrchu adroddiadau, gwybodaeth a chyfathrebu'n electronig (neu barodrwydd i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant angenrheidiol); a mynychu unrhyw gyfarfodydd digidol o bell; ac
- Yn barod i fynychu cyfarfodydd yn swyddfeydd y Cyngor neu o bell fel bo angen.

**Meini Prawf Dymunol:**

- Wedi cael profiad o Bwyllgor Archwilio, neu brofiad o weithio mewn, neu gyda sefydliad mawr, neu sefydliad sector cyhoeddus, neu wedi gwasanaethu ar Bwyllgor neu Fwrdd;
- Yn meddu ar radd/cymhwyster addysg bellach/proffesiynol mewn maes astudio perthnasol, megis cyfrifyddeg, cyllid, rheoli risg, rheoli busnes, archwilio allanol neu'r gyfraith;
- Wedi cael profiad o gyllid, rheoli risg, rheoli perfformiad ac archwilio, megis profiad ymarferol o reolaeth ariannol a/neu gyffredinol o fusnesau neu sefydliadau sector cyhoeddus;
- Wedi cael profiad o weithio mewn partneriaeth, cydweithio, a gwella perfformiad yng nghyd-destun llywodraeth leol;
- Yn meddu ar wybodaeth/sgiliau/profiad o archwilio neu reoli risg, neu arbenigedd technegol arall sy'n berthnasol i weithgareddau'r Cyngor, gan gynnwys dealltwriaeth dda o'r rolau, a'r gwahaniaeth rhwng Archwilio Mewnol ac Allanol;
- Wedi cael profiad o fewn amgylchedd llywodraeth leol, a gwybodaeth o'r heriau sy'n wynebu Cyngor Sir Ceredigion a'i wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys dealltwriaeth o'i gymunedau, ei brif swyddogaethau, ei weledigaeth a'i flaenoriaethau;
- Yn meddu ar y gallu i ddeall materion cymhleth a phwysigrwydd atebolrwydd a chywirdeb mewn bywyd cyhoeddus;
- Yn deall yr angen am archwiliad annibynnol o gyfrifoldebau rheoli dyddiol;
- Yn deall cymhlethdod materion sy'n gysylltiedig ag archwilio, cyllid a rheoli risg o fewn llywodraeth leol;
- Yn ymwybodol o beryglon twyll a rheolau sy'n cyfyngu ar dwyll;
- Yn deall gweithdrefnau Pwyllgora;
- Wedi cadeirio cyfarfod Pwyllgor;
- Yn gallu siarad Cymraeg; ac
- Yn dangos diddordeb mewn materion lleol.

**Ni ddylai Ymgeiswyr:**

- Yn aelod neu'n swyddog o Gyngor Sir Ddinbych neu unrhyw awdurdod lleol arall,
- Wedi bod ar unrhyw adeg yn y cyfnod o ddeuddeg mis yn dod i ben gyda dyddiad y penodiad, yn aelod neu'n swyddog o unrhyw awdurdod lleol, a
- Yn briod neu'n bartner sifil i aelod neu swyddog o unrhyw awdurdod lleol.
- Wedi cael eu hanghymhwyso o dan Adran 80 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu unrhyw ddeddfiad arall

Cynghorir ymgeiswyr bod pob aelod lleyg yn dod dan ddarpariaethau Cod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau. Cyn gallu ymgymryd â'r rôl, bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus arwyddo adduned i gydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau (sydd ar gael ar wefan y Cyngor).

Dylai ymgeiswyr hefyd fod yn ymwybodol y bydd canfasio'n gwneud eu cais yn anghymwys.

Cynghorir ymgeiswyr ymhellach y bydd gofyn iddyn nhw ddatgelu unrhyw wrthdrawiad buddiannau neu wrthdrawiad buddiannau posib gyda'r Cyngor, megis cysylltiadau busnes neu gysylltiadau personol â'r Cyngor, a gwneud unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â lletygarwch/rhoddion, i Swyddog Monitro'r Cyngor, yn unol ag ymrwymiadau Aelodau'r Cyngor a Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau. Os nad yw ymgeiswyr yn siŵr a oes yna wrthdrawiad buddiannau neu wrthdrawiad buddiannau posib, neu a ddylent wneud datganiad ai peidio, rhaid iddynt ddatgelu hynny i'r Swyddog Monitro. Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch datganiadau/gwrthdrawiad buddiannau neu letygarwch at sylw'r Swyddog Monitro.

# Proses Ymgeisio

Os ydych yn dymuno bwrw ymlaen â'ch cais, cwblhewch a dychwelwch y ffurflen gais a'r ffurflen cyfle cyfartal atodedig i amy.foster@sirddinbych.gov.uk.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl cysylltwch â Gary Williams, Swyddog Monitro ar gary.williams@sirddinbych.gov.uk neu 01824 712562.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5 Medi 2025.

Bydd y penodiad yn amodol ar gyfweliad gyda Phanel Cynghori ar 25 Medi 2025.

Bydd y Panel Cynghori yn gwneud argymhelliad ar y 11 Tachwedd 2025 i'r Cyngor Llawn a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y penodiad.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg.

Rydym yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'n cymunedau amrywiol gan gynnwys pobl ifanc, menywod, pobl ag anableddau, lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn prosesu'r data personol gan ddefnyddio ei awdurdod swyddogol ac yn ei ddefnyddio dim ond at ddibenion recriwtio ac aelodaeth o'r Pwyllgor Safonau. Dim ond gyda'r swyddogion a'r Aelodau hynny sy'n ymwneud â'r broses recriwtio y bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu (gan nodi y bydd y penodiad terfynol yn cael ei wneud ar ffurf adroddiad sy'n hygyrch i'r cyhoedd i'r Cyngor Sir gyfan). Os byddwch yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich ffurflen gais am dymor eich gwasanaeth ar y Pwyllgor Safonau. Os byddwch yn aflwyddiannus bydd eich ffurflen gais yn cael ei dinistrio'n ddiogel ar ddiwedd y broses recriwtio. Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau a sut i gwyno os ydych yn anhapus â'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch data personol ar gael ar wefan y Cyngor.

https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preifatrwydd/preifatrwydd.aspx#



# Diolch am ddangos diddordeb

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Gwefan:** www.sirddinbych.gov.uk**Instagram:** @CyngorSDd_DenbighshireCC**Facebook**: Cyngor Sir Ddinbych
**Twitter:** @CyngorSDd
**Prif Swyddfa:** Neuadd y Sir, Fford Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN